# Cynllun Monitro Cychod Cymru (WVMS)

# Ffurflen Hawlio Grant

# Canllaw Sut i Lenwi

© Hawlfraint y Goron 2025

Digital ISBN: 978-1-83715-059-5

Fersiwn **0.1**

# Cynnwys

**Ffurflen Hawlio Grant – Canllaw Sut i Lenwi .......... 3**
Neges Bwysig .......... 3
**Cyfrif RPW Ar-lein .......... 4**
**Gweld y Ffurflen Hawlio Grant .......... 5**
**Dechrau Cais .......... 6**
**Parhau â'ch Cais/Dechrau Eto .......... 6**
**Tudalen Cyflwyniad .......... 9**
**Dewiswch Gontractau .......... 10**
**Gweithgareddau sydd ar gael ichi hawlio arnyn nhw .......... 11**
**Dogfennau Ategol – Tystiolaeth ar gyfer eich Hawliad .......... 13**
**Cyflwyno'r Hawliad .......... 14**
Gwallau a Gwybodaeth .......... 14
**Datganiadau ac Ymrwymiadau .......... 17**
**Cyflwyno .......... 18**
**Manylion Cysylltu .......... 19**
Ymholiadau gan Ffermwyr – y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid .......... 19

# Ffurflen Hawlio Grant – Canllaw Sut i Lenwi


## Neges Bwysig

Mae'r canllaw hwn yn esbonio sut i lenwi Ffurflen Hawlio Grant a’r dystiolaeth ddogfennol sy’n ofynnol i gefnogi eich cais.

Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu mynd i’ch cyfrif ar-lein, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 (Ar agor o 8.30am tan 5.00pm Llun - Iau ac o 8.30am tan 4.30pm bob dydd Gwener).

# Cyfrif RPW Ar-lein

I weld y Ffurflen Hawlio Grant, rhaid ichi fynd trwy'ch cyfrif RPW Ar-lein gan ddefnyddio Porth y Llywodraeth neu One Login Gov.UK.



Llywodraeth Cymru Welsh Government

RPW Taliadau Gwledig Cymru Ar-Lein Online Rural Payments Wales

English

## Rydyn ni'n newid y ffordd rydych yn mewngofnodi ar RPW Ar-lein

Mae manylion mewngofnodi RPW Ar-lein yn newid er mwyn defnyddio One Login GOV.UK. O fis Ionawr 2026, ni fyddwch yn gallu mewngofnodi ar RPW Ar-lein trwy Borth y Llywodraeth.

Bydd angen ichi barhau i ddefnyddio Porth y Llywodraeth os:

- nad ydych wedi mynd i'ch cyfrif (CRN) trwy One Login GOV.UK o'r blaen ac nad ydych wedi cael gwahoddiad i symud i One Login GOV.UK
- mae gennych wahoddiad i symud eich cyfrif (CRN) i One Login GOV.UK ond nid ydych yn dymuno gwneud hynny heddiw
- ydych yn weinyddwr Porth y Llywodraeth a'ch bod am symud eich CRN i One Login GOV.UK heddiw

Bydd gofyn ichi ddefnyddio One Login GOV.UK os:

- ydych wedi cael gwahoddiad i ymuno â busnes ar-lein
- ydych wedi defnyddio One Login GOV.UK i weld y CRN o'r blaen
- nad ydych wedi defnyddio RPW Ar-lein o'r blaen

**Dewiswch ffordd i fewngofnodi**

○ Mewngofnodi trwy Borth y Llywodraeth
○ Mewngofnodi neu gofrestru gan ddefnyddio One Login GOV.UK

Parhau

### Beth yw One Login GOV.UK?

One Login GOV.UK fydd y ffordd newydd i chi fewngofnodi i holl wasanaethau'r llywodraeth ganol. Gydag One Login GOV.UK, byddwch yn gallu cael at yr holl wasanaethau rydych chi'n eu defnyddio, i gyd mewn un lle, gyda'r un cyfeiriad e-bost a chyfrinair.

### Beth fydd yn newid i RPW Ar-lein?

Byddwch yn gallu defnyddio'ch cyfrif One Login GOV.UK i weld yr holl fusnesau rydych yn gweithredu ar eu rhan. Ar ôl cofrestru neu ymuno â busnes ar-lein, cliciwch ar y busnes rydych am ei weld wrth fewngofnodi.

### Sut mae dechrau defnyddio One Login GOV.UK gydag RPW Ar-lein?

Yn gyntaf, cofrestrwch am gyfrif gyda One Login GOV.UK. Yna rhowch y cyfeiriad e-bost y gwnaethoch chi ei ddefnyddio i greu'ch cyfrif One Login GOV.UK i weinyddwr grŵp Porth y Llywodraeth eich cyfrif RPW Ar-lein.


Gweinyddwr y grŵp yw'r person sy'n ychwanegu aelodau at dîm ar Borth y Llywodraeth ac yn eu rheoli, hynny yw efallai prif gyswllt y busnes neu'r person sy'n rheoli'ch cyfrif RPW Ar-lein. Os mai chi yw'r unig un sy'n gwybod eich ID ar Borth y Llywodraeth, chi fwy na thebyg yw'r gweinyddwr.


Gall gweinyddwr y grŵp wahodd ei hun i'r cyfrif RPW Ar-lein ac yna defnyddio One Login GOV.UK i fewngofnodi. Gall wahodd pobl eraill i ddefnyddio'r cyfrif hefyd, gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost ei gyfrif One Login GOV.UK.

Ar ôl ichi logio i mewn, fe welwch dudalen 'Hafan' eich cyfrif RPW ar-lein.

# Gweld y Ffurflen Hawlio Grant


I weld y Ffurflen Hawlio Grant, cliciwch ar y ddolen ar gornel chwith isaf eich sgrin Hafan (gweler isod). Neu cliciwch ar y tab ‘Ffurflenni’ ar y bar dewis a chliciwch ar y ddolen Ffurflen Hawlio Grant yn y panel glas ar ochr dde’r sgrin.



# Dechrau Cais


Ar ôl pwyso'r botwm i ddechrau llenwi'ch Ffurflen Hawlio Grant, fe welwch y dudalen ganlynol. Gofalwch fod y manylion arni'n gywir ac os nad ydyn nhw, cywirwch nhw ar eich cyfrif RPW Ar-lein cyn mynd ymhellach. Os ydych yn barod i fynd yn eich blaen, cliciwch ar y botwm 'Dechrau'.




Ar ôl clicio'r botwm 'Dechrau', fe welwch y dudalen Cyflwyniad i'r Ffurflen Hawlio Grant.


# Parhau â'ch Cais/Dechrau Eto

Ar ôl dechrau ar eich cais, gallwch ei adael a mynd yn ôl ato wedyn. Os ydych yn agor cais rydych eisoes wedi dechrau ei lenwi, yna gallwch Barhau (botwm glas ar waelod y sgrin) neu Ddechrau Eto trwy glicio ar y ddolen yn y sgrinlun:




Cofiwch, os byddwch yn dewis Dechrau Eto, bydd hyn yn dileu’r holl atebion rydych wedi’u rhoi ac unrhyw wybodaeth y byddwch wedi’i hychwanegu.

Os ydych yn siŵr eich bod am Ddechrau Eto, cliciwch ar ‘Ydw’ neu os nad ydych chi, cliciwch ‘Na’ fel sydd ar y sgrin:



Taliadau Gwledig Cymru Ar-Lein Online Rural Payments Wales

CRN:

English | Allgofnodi

Hafan | Manylion y CRN | Tir | Gohebiaeth 43 | Ffurflenni | Contractau a Grantiau Bach | Cynlluniau Coetir

# Ffurflen Hawlio Grant - Dileu / Dechrau Eto

Bydd yr opsiwn hwn yn dileu'ch cais **Ffurflen Hawlio Grant** ac yn dadwneud yr **HOLL** newidiadau rydych wedi'u gwneud ers dechrau'ch **Ffurflen Hawlio Grant.**

Bydd hyn yn:

- dileu'r holl wybodaeth rydych wedi'i hychwanegu
- ailosod yr holl gwestiynau yr ydych wedi'u hateb

Pan gaiff y **Ffurflen Hawlio Grant** hwn ei dileu, gallwch ddechrau **Ffurflen Hawlio Grant,** newydd. Caiff ei llenwi â'r data diweddaraf.

**A ydych am fwrw ymlaen â'r opsiwn hwn?**

Cliciwch 'Ydw' i gadarnhau'ch bod am ddileu'ch **Ffurflen Hawlio Grant** a dechrau eto. [Ydw]


Cliciwch 'Na' i gadw'r hyn rydych wedi'i roi ar eich **Ffurflen Hawlio Grant** a dychwelyd i'r sgrin flaenorol. [Na]

Dogfennau Canllaw | Cysylltwch â ni | Datganiad Hawlfraint | Datganiad Hygyrchedd | Cwcis | Preifatrwydd

# Tudalen Cyflwyniad


Mae'r dudalen hon yn rhoi negeseuon pwysig ichi am y Ffurflen Hawlio Grant. Gofalwch eich bod yn eu darllen yn drylwyr cyn ichi ddechrau. Gallwch weld y Canllaw Sut i Lenwi Ffurflen Hawlio Grant ar wefan Llywodraeth Cymru (bydd hyn yn agor tab newydd ar eich Porwr Rhyngrwyd) drwy glicio ar y ddolen 'Sut i Lenwi' neu drwy glicio ar y blwch glas Helpu ar dop y dudalen.

Bydd y dudalen hon yn mynd â chi i'r brif dudalen Ffermio a Cefn Gwlad Cymru. Yma gallwch ddewis y dudalen Hafan. O dan y dudalen hon mae dolen i'r dudalen Môr a Physgodfeydd lle gallwch weld y Cynllun perthnasol a'r canllawiau Sut i Lenwi ar unrhyw adeg.




# Dewiswch Gontractau


Dim ond os oes gennych fwy nag un contract y gallwch hawlio drwyddynt y byddwch yn gweld y dudalen hon.  Gallan nhw fod yn gontractau ar wahân ar gyfer yr un cynllun neu gontractau ar gyfer cynlluniau gwahanol. Dewiswch pa gontract(au) yr hoffech hawlio drwyddynt drwy glicio ar y blwch perthnasol.





Er enghraifft, mae yna ddau gontract ar y Ffurflen Hawlio Grant isod y gallwch hawlio drwyddynt.




Os dewiswch y ddau, byddant i gyd yn ymddangos ar yr ochr chwith.




Os dewiswch un contract yn unig, yna dim ond un cynllun fydd yn ymddangos ar ochor chwith y dudalen.




## Gweithgareddau sydd ar gael ichi hawlio arnyn nhw


Mae'r sgrin hon yn dangos y gweithgareddau sydd ar gael ichi Hawlio Grant arnyn nhw ar hyn o bryd.

Bydd y sgrin yn dangos y contract rydych yn hawlio taliad trwyddo.




Rhaid i'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi ar y sgrin hon fod yn gywir.


Ticiwch y blwch sydd yn ymyl y gweithgaredd yr hoffech hawlio amdano. Bydd y swm rydych yn ei hawlio o 1 wedi'i lenwi ymlaen llaw, Nodwch y dyddiad y gwnaethoch chi gwblhau'r gweithgaredd.




**Sylwer:** mai dim ond unwaith y cewch chi hawlio am weithgaredd.

‘Dyddiad Cwblhau’r Gweithgaredd’ yw’r dyddiad pan gafodd yr eitem ei phrynu. Byddwch wedi prynu’r eitem honno ar neu ar ôl 19 Rhagfyr 2024.

Os bydd y manylion y byddwch yn eu rhoi yn anghywir, fe welwch neges yn dangos eich bod wedi gwneud camgymeriad ac ni fyddwch yn cael cyflwyno'ch hawliad tan ichi gywiro'r holl gamgymeriadau.



# Dogfennau Ategol – Tystiolaeth ar gyfer eich Hawliad

**Rhaid ichi gyflwyno'r canlynol gyda'ch hawliad:**

- Tystiolaeth bod y gwariant wedi cael ei wneud ar gyfer pob eitem rydych wedi hawlio amdani.
- Anfonebau ar gyfer pob eitem rydych wedi hawlio amdani.

**Os na roddir tystiolaeth bydd yr hawliad yn cael ei wrthod.**


Rhaid i anfonebau ddangos y gair 'anfoneb' ar y ddogfen a chynnwys y canlynol:

- rhif adnabod unigryw
- enw a chyfeiriad eich cwmni a manylion cyswllt
- enw a chyfeiriad y cwmni anfonebu
- disgrifiad clir o'r hyn yr ydych yn talu amdano
- dyddiad darparu'r nwyddau neu'r gwasanaeth (dyddiad cyflenwi)
- dyddiad yr anfoneb
- y swm/symiau a godir am bob eitem
- y TAW, os yw'n gymwys
- y cyfanswm sy'n ddyledus.

Dylid rhoi tystiolaeth o dalu drwy gyfriflenni banc. Os nad yw gwerth y trafodiad yn cyd-fynd â gwerth yr anfoneb (er enghraifft, os ydych wedi prynu eitemau nad ydynt yn rhan o'r prosiect o'r un cyflenwr, bydd angen dadansoddiad o'r taliad cyfan gydag anfonebau atodol.

Os ydych yn gwneud taliadau â siec, yna bydd angen sganio neu dynnu llun o'r siec wedi'i hysgrifennu, cyn ei chyflwyno i'r cyflenwr, yn ogystal â'r gyfriflen banc.

Rhoddir rhestr o dystiolaeth ategol. Ticiwch wrth y dystiolaeth y byddwch yn ei darparu, gan nodi a fyddwch yn ei darparu ar-lein neu drwy’r post neu yn bersonol. Pwysig: ‘Derbynebau’ sydd ar y rhestr ond mae’n golygu anfonebau’r eitem rydych yn ei hawlio.




Cewch gyflwyno’r anfonebau a thystiolaeth eu bod wedi cael eu talu drwy eu sganio a’u hanfon drwy 'Fy negeseuon' yn eich cyfrif RPW Ar-lein.

# Cyflwyno’r Hawliad


## Gwallau a Gwybodaeth

Mae’r adran hon yn rhestru’r Negeseuon ‘Gwallau a ‘Gwybodaeth’ ar eich  Ffurflen Hawlio Grant.


Rhaid cywiro unrhyw wallau cyn cyflwyno’ch Ffurflen Hawlio Grant.

Diben y negeseuon Gwybodaeth yw’ch atgoffa am unrhyw gamau y gallai fod gofyn ichi eu cymryd, ond nid ydynt yn eich rhwystro rhag cyflwyno’ch hawliad.

I weld negeseuon Gwallau a Gwybodaeth ar gyfer adran benodol, cliciwch ar enw’r adran ar ochr chwith y sgrin neu cliciwch ar ddolen Enw'r Adran yn y blwch Gwallau a Gwybodaeth.





Ar ôl ichi gywiro'r gwallau, rydych nawr yn barod i gyflwyno'ch Ffurflen Hawlio Grant.





Mae'r sgrin gyflwyno'n rhestru'r holl weithgareddau rydych wedi'u dewis i hawlio arnyn nhw, ac mae'n dangos uchafswm gwerth yr hawliad hefyd, sef £800 gan gynnwys TAW.

Byddwn wedi llenwi'r swm hwn ymlaen llaw a chaiff ei gywiro wrth brosesu'r taliad, ar ôl ichi gyflwyno'r anfoneb neu dystiolaeth o wariant. Byddwn yn talu'r lleiaf o naill ai'r gost safonol gymeradwy neu'r pris go iawn fydd ar yr anfoneb y byddwch yn ei chyflwyno gyda'r hawliad. Cofiwch nad yw costau cludiant a gosod yn gostau cymwys a dylech felly eu tynnu o swm y taliad.




Os ydych wedi dewis hawlio o dan fwy nag un cynllun/contract, bydd y Crynodeb yn dangos yr holl weithgareddau rydych yn hawlio arnyn nhw o dan bob cynllun.



Ffurflen Hawlio Grant

Helpu

- Cyflwyniad
- Dewiswch Gontractau
- Tyfu er mwyn yr Amgylchedd (EG001206 - Tyfu er mwyn yr Amgylchedd - Ffenestr 6)
- Cynllun Monitro Cychod Cymru (VM000025 - Vessel 102)
- Cyflwyno
  - Gwallau, Gwybodaeth a Chrynodeb
  - Datganiadau ac Ymrwymiadau
  - Cyflwyno

Gwallau, Gwybodaeth a Chrynodeb

Yn ôl | Safio | Nesaf

**Crynodeb, gan gynnwys camgymeriadau a gwybodaeth**
Nid oes Gwallau na Negeseuon Gwybodaeth.

Nid yw hyn yn cadarnhau bod eich cais yn gyflawn ac yn gywir. Bydd gofyn sicrhau'ch bod wedi hawlio ar y tir y bwriadwyd hawlio arno a bod y manylion yn eich cais yn gyflawn ac yn gywir.

**Crynodeb o'r Manylion**
**Pwysig: Darllenwch y Crynodeb. Sgroliwch i lawr os oes angen.**

Mae'r canlynol yn crynhoi eich Hawliad Grant sydd wedi'i gwblhau gennych chi.

## Tyfu er mwyn yr Amgylchedd (EG001206 - Tyfu er mwyn yr Amgylchedd - Ffenestr 6)

2024

| Cyfeirnod y Map | Rhif y Gwaith Cyfalaf | Disgrifiad | Dyddiad Cwblhau'r Gweithgaredd? | Nifer a Hawlir | Gwerth (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| GE003 | CD10 | Gwreiddgnydau neu gnwd porthiant heb eu chwistrellu gydag ymylon caeau nad ydynt wedi'u pori | 17/02/2025 | 1.00 ha | 328.00 |
| GE002 | CD05 | Cnwd ŷd heb ei chwistrellu, wedi'i hau yn y gwanwyn | 18/02/2025 | 1.00 ha | 219.00 |
| GE004 | CD11 | Cnwd ŷd heb ei chwsitrellu, wedi'i hau yn y gwanwyn gyda Meillion Coch oddi tanoc | 18/02/2025 | 1.00 ha | 914.00 |
| | | | | **Cyfanswm gwerth yr hawliad** | 1,461.00 |

## Cynllun Monitro Cychod Cymru (VM000025 - Vessel 102)

2024


| Cyfeirnod y Map | Rhif y Gwaith Cyfalaf | Disgrifiad | Dyddiad Cwblhau'r Gweithgaredd? | Nifer a Hawlir | Gwerth (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| | VM1 | Dyfais Monitro Cychod | 17/02/2025 | 1 Eitem | 800.00 |
| | | | | **Cyfanswm gwerth yr hawliad** | 800.00 |

Printio | English | Gadael | Yn ôl | Safio | Nesaf

# Datganiadau ac Ymrwymiadau


Rhaid darllen y Datganiadau a’r Ymrwymiadau i wneud yn siŵr eich bod yn cydymffurfio â nhw. Sgroliwch i lawr y dudalen i ddarllen y Datganiadau a'r Ymrwymiadau i gyd.  Pan fyddwch yn fodlon eich bod wedi'u darllen a'u deall ac wedi cydymffurfio â nhw, ticiwch y blwch ar y gwaelod i fynd yn eich blaen.

Os na fyddwch wedi ticio'r blwch i gadarnhau'ch bod wedi darllen a deall y Datganiadau ac Ymrwymiadau ac wedi cymdymffurfio â nhw, fe welwch neges camgymeriad ac ni fyddwch yn cael cyflwyno'ch hawliad tan ichi dicio'r blwch.





Bydd angen ichi dicio mwy nag un blwch wrth hawlio rai grantiau. Gofalwch fod yr holl flychau wedi'u ticio.

Cliciwch y botwm Nesaf os ydych am fynd yn eich blaen.




# Cyflwyno

Mae’ch Hawliad Grant yn awr yn barod i’w gyflwyno. Os ydych yn barod i’w gyflwyno, pwyswch y botwm ‘Cyflwyno’.




Gofalwch eich bod yn anfon eich Ffurflen Hawlio Grant erbyn y dyddiad cau sydd yn y contract.

Os na fyddwch wedi'i anfon erbyn y dyddiad cau, chewch chi ddim mo'ch talu.

Ar ôl anfon yr hawliad, rhaid cyflwyno'r holl ddogfennau ategol cymwys.

Os na fyddwch wedi cyflwyno'r dogfennau ategol erbyn y dyddiad cau, chewch chi ddim mo'ch talu.

# Manylion Cysylltu

## Ymholiadau gan Ffermwyr – y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

Yn y lle cyntaf, dylai cwsmeriaid sydd am gysylltu â ni ffonio neu e-bostio’r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid lle bydd staff wrth law i roi gwybodaeth ac i ateb cwestiynau.

Gallwch ddefnyddio'r dudalen 'Negeseuon' ar eich cyfrif RPW Ar-lein i anfon cwestiwn at y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid. Fel arall, defnyddiwch y manylion cysylltu canlynol:

Ffôn: 0300 062 5004

Cyfeiriad Blwch Swyddfa Bost:
Taliadau Gwledig Cymru,
Blwch Post 251,
Caernarfon,
LL55 9DA